Ateb yn gywir:

Oes / Nac oes

Mae Dwli'n dweud:



Os bydd rhywun yn gofyn cwestiwn yn dechrau gyda '**Oes** . . ?' rhaid ateb: '**Oes**' neu '**Nac oes**'.

1. Ateb y cwestiynau hyn drwy ysgrifennu **Oes** neu **Nac oes:**

a. Oes brawd gyda ti?/
Oes gen ti frawd? _____

b. Oes chwaer gyda ti? /
Oes gen ti chwaer? _____

c. Oes anifail anwes gyda ti? /
Oes gen ti anifail anwes? _____

ch. Oes rhaid i ti ddal bws i fynd i'r ysgol? _____

d. Oes rhaid i ti fynd i'r ysgol yn y car? _____

dd. Oes rhaid i ti gerdded adref o'r ysgol? _____

e. Oes gwaith cartref gyda ti? /
Oes gen ti waith cartref? _____

2. Mae rhywun wedi gofyn cwestiynau i Dwli. Ond mae Dwli'n swil, mae eisiau i ti ysgrifennu'r atebion. Mae ✓ yn golygu **Oes**, mae ✗ yn golygu **Nac oes**.

a. Oes rhaid i ti fynd i'r ysgol, Dwli? ✗ _____
b. Oes crafangau gyda ti? /
Oes gen ti grafangau? ✓ _____
c. Oes teledu gyda ti? / Oes gen ti deledu? ✗ _____
ch. Oes brawd neu chwaer gyda ti? /
Oes gen ti frawd neu chwaer? ✓ _____
d. Oes car gyda ti? / Oes gen ti gar? ✗ _____
dd. Oes rhaid i ti wneud gwaith cartref? ✗ _____

3. Dyma gwestiynau eraill. Dewisa un o'r atebion o'r blwch bob tro.

Oes	**Nac oes**	**Oes**	**Nac oes**	**Oes**	**Oes**

a. Oes siopau yng Nghaerdydd? _____
b. Oes cae pêl-droed ym Mangor? _____
c. Oes brenin yn byw yng Nghymru? _____
ch. Oes anifeiliaid yn byw ar fferm? _____
d. Oes chwe olwyn ar bob car? _____
dd. Oes to ar bob tŷ? _____



DWLI'S HELP FOR PARENTS:
Answering correctly: Oes / Nac oes (Yes / No)
Dwli says: If someone asks you a question starting with 'Oes', you must answer **Oes** or **Nac oes**.

1. Answer these questions by writing **Oes** or **Nac oes**. a. Have you got a brother?; b. Have you got a sister?; c. Have you got a pet?; ch. Do you have to catch a bus to go to school?; d. Do you have to go to school by car?; dd. Do you have to walk home from school?; e. Do you have homework?
2. Someone has asked Dwli some questions. But Dwli's shy and wants you to write the answers. ✓ means **Oes**, ✗ means **Nac oes**. a. Do you have to go to school, Dwli?; b. Have you got claws?; c. Have you got a television?; ch. Have you got a brother or sister?; d. Have you got a car?; dd. Do you have to do homework?
3. Here are some other questions. Choose one of the answers from the box every time. a. Are there shops in Cardiff? (Oes); b. Is there a football pitch in Bangor? (Oes); c. Is there a king living in Wales? (Nac oes); ch. Do animals live on a farm? (Oes); d. Are there six wheels on every car? (Nac oes); dd. Is there a roof on every house? (Oes)

* Now colour in the **Oes / Nac oes** star on page 48.



Nawr, lliwia'r seren â **Oes / Nac oes** arni ar dudalen 48.*